# Beth mae angen i chi ei wybod am Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-2021

Chartered Institute of Housing Cymru

## Cefndir

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fanylion ei chyllideb ddrafft ar 16 Rhagfyr 2019. Mae'r gyllideb ddrafft hon yn adlewyrchu darlun cadarnhaol i weithwyr tai proffesiynol gyda chyllid ychwanegol ar gyfer tai fforddiadwy a chynnydd yn y setliad cyllidol i lywodraeth leol. Yn wir, bydd pob adran yn gweld cynnydd mewn cyllid gan ddilyn £600m ychwanegol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn gynharach eleni.

Bydd y GIG yng Nghymru'n derbyn £340m ychwanegol o fis Ebrill nesaf, a bydd llywodraeth leol yn gweld cynnydd 4.3 y cant, gan nodi newid yn y duedd dros y deuddeg mlynedd ddiwethaf bron i gwtogi ar gyllidebau llywodraeth leol yn gyffredinol.

## Beth mae'r gyllideb yn ei gynnig yn y maes tai?

Mae'r gyllideb hon yn gweld cynnydd cyffredinol o £175m ar gyfer tai. Mae hyn yn cynnwys:

- £48m mewn Grant Tai Cymdeithasol ychwanegol
- £10m i gefnogi adeiladu modiwlaidd
- £5m i'r gronfa rhyddhau tir

Gan adlewyrchu pwyslais cryf y gyllideb hon ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd mae'n cynnwys £50m mewn benthyciadau tai, y bwriedir iddynt gefnogi cymdeithasau tai wrth gymryd camau i weithio tuag at dargedau datgarboneiddio cartrefi presennol a datblygu cynllun i gyflwyno cartrefi fforddiadwy newydd.

Mae cyllid ar gael hefyd i gefnogi hyn ymhellach trwy £25m ar gyfer y rhaglen tai arloesol.

Gwelir cynnydd dymunol mewn cyllid adfywio cyfalaf yn y gyllideb hefyd, i fyny i £51m.

## Barn CIH Cymru

- Croesawn yn frwd y pwyslais ar daclo newid yn yr hinsawdd a'r gefnogaeth gyllidol sydd ar gael i alluogi aelodau i ymgymryd â gweithgareddau datgarboneiddio cartrefi a gwneud cartrefi presennol yn fwy effeithlon gydag ynni.
- Byddem yn croesawu ymchwil bellach i sut y gallai'r bil gefnogi gosod dyletswydd 'ystyriaeth briodol' ar awdurdodau lleol sydd wedi'i chysylltu â'r hawl i gartref digonol.
- Credwn y dylai hwn fod yn gam cyntaf yn y gefnogaeth gyllidol i'r sector ar ddatgarboneiddio, a dylai realiti cyflawni'r targedau a osodwyd gan yr adolygiad tai fforddiadwy olygu yr aiff cefnogaeth gyllidol yn y maes hwn yn nodwedd gyffredin cyllidebau Llywodraeth Cymru.
- Mae cynnydd mewn cyllid i lywodraeth leol yn gwbl hanfodol. Credwn ei fod yn allweddol y dylai'r cyllid heb ei neilltuo ganolbwyntio ar ehangu gweithgareddau ataliol i ostwng digartrefedd a'r defnydd o lety dros dro.
- Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i sut i fuddsoddi, yn hytrach na chynnal lefel bresennol y Grant Cefnogi Tai.

## Mwy o wybodaeth

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru [yma.]

Dyddiadau allweddol

- Bydd y gyllideb ddrafft yn destun cyd-drafodaeth lawn yng Nghynulliad Cymru ar **4 Chwefror 2020.**
- Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ei chyllideb derfynol ar **25 Chwefror 2020.**
- Cynhelir cyd-drafodaeth ar y gyllideb derfynol yn ystod y sesiwn lawn ar **3 Mawrth 2020.**

Bydd CIH Cymru yn parhau i drafod gyda'r holl bleidiau gwleidyddol sut gall y gyllideb hon ymateb i anghenion gweithwyr tai proffesiynol ar draws Cymru - gan alw ar fewnwelediad ac arbenigedd aelodau. Os hoffech ddarparu eich barn am y gyllideb ddrafft, cysylltwch â matthew.kennedy@cih.org